# Rheoliadau Cymeradwyo Cymwysterau a/neu Profiad Perthnasol Ar Gyfer Mynediad i Raddau Uwch, Diplomâu a Thystysgrifau Prifysgol Aberystwyth

1. Rhagymadrodd

Yn Adrannau 2-7 o'r Rheol Sefydlog hon, rhestrir cyfres o gymwysterau ynghyd â chanllawiau sydd wedi eu seilio ar bolisi'r Brifysgol ynglŷn â derbyn y sawl sy'n dal y cymwysterau hynny i astudiaethau neu ymchwil ôlraddedig.

1.2 Y cyfnodau byrraf ar gyfer ymgeisyddiaeth am radd Athro y Brifysgol yw un flwyddyn galendr (yn amser-llawn) a dwy flynedd calendr (yn rhan-amser) er bod rhaid i sefydliad sy'n derbyn ymgeisydd ei fodloni ei hun ynglŷn â ffitrwydd yr ymgeisydd i wneud gwaith ôlraddedig ac y caiff Penaethiaid Adrannau yn ôl eu disgresiwn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ymgeisydd am radd Athro astudio am gyfnod hirach na'r isafsymiau hyn.

1.3 Cynghorir ymgeiswyr am gyrsiau diploma a thystysgrif ôlraddedig mewn Addysg (e.e. y cwrs TAR) sydd heb radd i holi Llywodraeth Cynulliad Cymru neu'r Adran Fusnes, Dyfeisgarwch a Sgiliau ynghylch eu statws yn y proffesiwn addysgu. Sylwer hefyd nad yw cymwysterau y bernir gan yr LICC/AFDS eu bod yn rhoi statws graddedig yn y proffesiwn addysgu o reidrwydd yn cael eu trin gan y Brifysgol fel pe baent yn cyfateb i raddau.

1.4 Caiff Swyddfa Derbyn Graddedigion PA ynghyd â ac yn dilyn cais gan yr adran academaidd perthnasol gyflwyno Achosion Arbennig i Bwyllgor Materion Academaidd PA neu'r Dirprwy Is-Ganghellor perthnasol, sy'n cadeirio'r Pwyllgor Materion Academaidd ar gyfer darpar-fyfyrwyr uwchraddedig na chydnabir eu cymwysterau yn y Rheoliadau hyn. Bydd gan y Dirprwy Is-Ganghellor yr awdurdod

gweithredol i benderfynnu ar achosion unigol. Adroddir canlyniad y penderfyniadau hyn i'r Pwyllgor Materion Academaidd yn reolaidd. Noder er gwaethaf ymdrechion gorau'r Brifysgol a'r Pwyllgor, gall gymryd peth amser i benderfynu ar statws cyfatebol cymwysterau sydd heb eu cydnabod o'r blaen. O ganlyniad, ni ddylai myfyrwyr gael eu derbyn nes bod cadarnhad ynglŷn â statws eu cymhwyster wedi ei sicrhau oddi wrth y Pwyllgor a/neu Cadeirydd y Pwyllgor hwnnw.

1.5 Caiff y Rheoliadau hyn yn ddibynnol ar adolygiad blynyddol.

1.6 Mae graddau Sylfaenol o safon is na gradd Baglor ac felly ni fuasent yn galluogi deiliaid o'r cymhwyster i fatriciwleiddio ar gyfer astudiaeth uwchraddedig gyda Prifysgol Aberystwyth.

## 2. Graddedigion

Mae'r Brifysgol wedi cymeradwyo derbyn y canlynol yn ymgeiswyr ar gyfer:

(a) Gradd PhD, yn cael ei dilyn fel ymgeisydd amser-llawn neu ran-amser.
(b) Graddau Athro, yn cael eu dilyn fel ymgeisydd amser-llawn neu ran-amser.
(c) Pob diploma ôlraddedig.

2.1 Graddedigion Prifysgolion yn y Deyrnas Unedig.

2.2 Graddedigion y mae ganddynt radd a ddyfarnwyd gan y Cyngor Cenedlaethol Dyfarniadau Academaidd.

2.3 Graddedigion Coleg Celfyddydau Camberwell

2.4 Graddedigion Prifysgolion a Cholegau Prifysgol tramor sy'n aelodau neu'n aelodau o Gymdeithas Prifysgolion y Gymanwlad [www.acu.ac.uk].

2.5 Graddedigion unrhyw Brifysgol, Coleg neu Sefydliad arall a gydnabyddir gan yr UK NARIC ac yr ystyrir eu graddau yn gymharol ag o leiaf gradd Baglor (Gyffredin) o'r Deyrnas Unedig.

## 3. Personnau heb radd

Mae’r Brifysgol wedi cymeradwyo derbyn deiliaid y cymwysterau canlynol yn ymgeiswyr ar gyfer:

(a) Gradd PhD, yn cael ei dilyn fel ymgeisydd amser-llawn neu ran-amser.
(b) Graddau Athro, yn cael eu dilyn fel ymgeisydd amser-llawn neu ran-amser.
(c) Pob diploma ôlraddedig.

3.1 Diploma Graddedig o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru

3.2 Diploma Graddedig mewn Cyfrifiadureg o Brifysgol Morgannwg

3.3 Diploma Sefydliad yr Ieithyddion

3.4 Cymwysterau mewn Meddygaeth, Deintyddiaeth neu Lawfeddygaeth Filfeddygol sy’n gofrestradwy y Deyrnas Unedig.

3.5 Diploma mewn Pensaernïaeth a ddyfarnwyd gan unrhyw Ysgol a gydnabyddir gan y RIBA.

3.6 Aelodaeth Sefydliad Brenhinol Cynllunio Tref.

3.7 Aelodaeth Raddedig o’r Gymdeithas Frenhinol Cemeg (pe dyfarnir gyda Pasio mae’r aelodaeth raddedig yn gydnabyddedig ar gyfer y pwrpas o fynediad i raglenni TAR).

3.8 Aelodaeth o’r Gymdeithas Frenhinol Cemeg.

3.9 Aelodaeth Gorfforaethol o’r Sefydliad Ffiseg.

3.10 Aelodaeth o’r Sefydliad Bioleg.

3.11 Cymrodoriaeth Cymdeithas y Llyfrgellwyr.

3.12 Diploma mewn Astudiaethau Cymdeithasol a hefyd Ddiploma mewn Astudiaethau Cymdeithasol Cymwysedig neu gymhwyster cyfatebol, y ddau wedi eu dyfarnu gan Brifysgolion a gymeradwywyd ar ôl o leiaf dair blynedd do astudio amser-llawn.

3.13 Aelodaeth Raddedig Sefydliad City & Guilds Llundain.

3.14 Aelodaeth Gorfforaethol o’r cyrff canlynol (neu radd arall o aelodaeth y mae gofyn cyrraedd safon addysgol y corff ar gyfer Aelodaeth Gorfforaethol er mwyn ei sicrhau):

Y Gymdeithas Frenhinol Awyrenneg

Sefydliadau:
y Peirianwyr Cemegol, y Peirianwyr Sifil, y Peirianwyr Trydan, y Peirianwyr Electronig a Radio, y Peirianwyr Nwy, y Peirianwyr Mecanyddol, y Metelegwyr, y Peirianwyr Mwyngloddio, Mwyngloddio a Meteleg, y Peirianwyr Trefol, y Peirianwyr Cynhyrchu, y Peirianwyr Strwythurol.

Sefydliadau Ynni, y Peirianwyr Môr

Sefydliad Brenhinol Penseiri Llongau

Cymdeithas Siartredig y Ffisiotherapyddion

3.15 Diploma Graddedig mewn Adeiladu, Anglia Polytechnic University/ Anglia Ruskin University.

## 4. Personnau heb gradd a dderbynir ar sail Profiad Perthnaso

Caiff y Brifysgol gymeradwyo hefyd dderbyn rhai nad ydynt yn raddedigion yn ymgeiswyr os yw eu profiad perthnasol yn gwneud yn iawn am eu diffyg cymharol cymwysterau ffurfiol. Rhaid i ymgeisydd o’r fath fod wedi dal swydd gyfrifol sy’n berthnasol i’r cynllun astudio arfaethedig am gyfnod o 24 mis o leiaf. Dylid

cadarnhau hyn adeg y penderfyniad yn ystod y broses dderbyn drwy wirio'r deynyddiau cais yn enwedig y geirda.

Gall rhai nad ydynt yn raddedigion gael eu derbyn fel hyn yn ymgeiswyr ar gyfer:

(a) Graddau Athro, yn cael eu dilyn fel ymgeisydd amser-llawn neu ran-amser;
(b) Pob diploma ôlraddedig.

Ni all rhai nad ydynt yn raddedigion gael eu derbyn i gynlluniau doethur na chynlluniau TAR.

## 5. Asesu Cymwysterau Addysg Uwch Rhyngwladol

5.1 Fel arfer ni fydd ymgeiswyr sy'n meddu ar gymwysterau, o sefydliadau a gydnabyddir gan yr UK NARIC, yr ystyrwyd o safon is na gradd Baglor (Gyffredin) o'r Deyrnas Unedig yn gymwys i fatriciwleiddio. Fodd bynnag, os ydynt wedi ennill rhagor y brofiad Addysg Uwch ers ennill eu cymhwyster fel bo eu profiad addysg cynyddol yn gymharol â gradd Baglor (Gyffredin) o'r Deyrnas Unedig, gellir ystyried eu sefyllfa fel Achos Arbennig gan Bwyllgor Materion Academaidd PA neu'r Dirprwy Is-Ganghellor perthnasol os cymerdwyir hwynt gan Swyddfa Derbyn Graddedigion PA a'r adran academaidd perthnasol.

5.2 Mae swyddfa Derbyn Graddedigion PA yn asesu cymwysterau ymgeiswyr sy'n meddu ar gymwysterau a ennillwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

5.3 Y brif ffynhonell o wybodaeth yw'r Ganolfan Wybodaeth Genedlaethol ar gyfer Cydnabyddiaethau Academaidd (neu'r UK NARIC), sy'n darparu system gyfeirio ar y Wê a gwasanaeth ymholiadau. Mae gan y Ganolfan gyfoeth o brofiad i dynnu arno, yn nhermau ffynonellau cyhoeddedig safonol ac adroddiadau yn y maes.

UK NARIC Gwefan:
ECCTIS 2000 Cyf
Oriel House
Oriel Road

CHELTENHAM
Sir Gaerloyw GL50 1XP

www.naric.org.uk

## 6. Dyfarnu Cymwysterau PA i Fyfyrwyr Blwyddyn Gyfnewid sy'n

Gellir rhoi dyfarniadau Prifysgol Aberystwth i fyfyrwyr cyfnewid sy'n dod i mewn achosion lle bydd pob un o'r meini prawf canlynol wedi eu bodloni:

(i) bod gan y myfyriwr, adeg ei dderbyn, gymwysterau a gydnabuwyd at ddibenion ei dderbyn i astudio (yn achos myfyrwyr sy'n dilyn cynllun ôl-raddedig, felly, rhaid cymhwyso darpariaethau'r Rheoliadau hyn);
(ii) bod y ffi hyfforddi briodol wedi ei thalu;
(iii) ei bod yn glir na fyddai'r addysg a gâi'r myfyriwr ar gyfer ei gymhwyster ym PA yn cyfrannu mewn unrhyw fodd at y cynllun astudio a oedd yn cael ei ddilyn yn y sefydliad 'gartref'.

# Rheoliadau ar gyfer Diplomâu i Raddedigion

1. Gellir dyfarnu Diplomâu i Raddedigion y Brifysgol ar ôl i gynllun astudio modiwlar a gymeradwyir gan y Brifysgol gael ei gwblhau'n llwyddiannus yn amser llawn neu'n rhan-amser.

2. Cynigir y Diploma i Raddedigion ar lefel 6 FfCChC (AU lefel 3). Rhaid i fyfyrwyr gwblhau o leiaf 120 o gredydau ar lefel 6 FfCChC. Yr un yw'r meini prawf ar gyfer y cymhwyster ag ar gyfer graddau Baglor.

3. Cynlluniwyd y Diploma i Raddedigion i baratoi myfyrwyr ar gyfer astudio ar lefel Meistr neu ar gyfer gwaith proffesiynol cyfatebol mewn maes pwnc sy'n wahanol i'w gradd gyntaf, neu er mwyn diweddaru'r wybodaeth a'r sgiliau o radd gynharach yn yr un pwnc.

4. Pan fydd gwrthdaro rhwng rheoliadau'r Brifysgol a gofynion Corff Proffesiynol, dilynir gofynion y corff proffesiynol, yn amodol ar gadarnhau bod y gofynion Proffesiynol yn cael eu derbyn gan y Senedd.

5. I fod yn gymwys i'w dderbyn neu ei derbyn i gymhwyster sy'n berthnasol i'r rheoliadau hyn, rhaid i ymgeisydd:

(i) fod wedi bodloni unrhyw ofynion mynediad a all fod yn ofynnol gan y rhaglen dan sylw; a
(ii) bod wedi cymhwyso ar gyfer un o raddau cyntaf y Brifysgol, neu Brifysgol arall a gymeradwywyd ar gyfer hynny, neu feddu ar gymhwyster arall sy'n cael ei gydnabod yn gymhwyster cyfatebol yn ôl y Brifysgo

6. Gellir dyfarnu Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol (RPL) a/neu Gydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol trwy Brofiad (RPEL) yn unol â gweithdrefn berthnasol y Brifysgol. Uchafswm y credydau y gellir eu derbyn i gyfrif tuag at Ddiploma i Raddedigion yw 60.

7. Mae’r rheoliadau a’r confensiynau arholiad ar gyfer graddau cyntaf modiwlar yn berthnasol i’r Diploma i Raddedigion.

8. Y terfyn amser uchaf ar gyfer y Diploma i Raddedigion fydd 2 flynedd ar gyfer ymgeiswyr amser llawn a thair blynedd ar gyfer ymgeiswyr rhan-amser.

Diweddarwyd: Medi 2021

# Rheoliadau ar gyfer y Dystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR)

Mae'r Rheoliadau hyn yn rheoli dyfarnu'r Dystysgrif Addysg i Raddedigion ym Mhrifysgol Aberystwyth: y Brifysgol o hyn ymlaen. Ac eithrio lle nodir yn wahanol, maent yn berthnasol i raglenni sy'n dechrau o fis Medi 2021. Bydd myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar raglenni cyn y dyddiad hwnnw yn cael eu rheoli gan y rheoliadau a oedd mewn grym adeg eu derbyn.

## Mynediad

1. Rhaid bod ymgeiswyr wedi cyrraedd 17 oed neu'n hŷn adeg mynediad, a rhaid bod ganddynt:

(a) radd gychwynnol o'r Brifysgol;

(b) gradd gychwynnol a ddyfarnwyd gan gorff dyfarnu graddau arall sydd wedi'i gymeradwyo;

(c) cymhwyster nad ydyw'n radd, neu eu bod wedi cwblhau modiwlau ar lefel ôl-raddedig yn llwyddiannus a bod y Brifysgol wedi barnu eu bod o safon foddhaol at ddibenion eu derbyn fel myfyriwr ôl-raddedig.

2. Pa gymwysterau mynediad bynnag sydd gan ymgeisydd, rhaid i'r sefydliad ei fodloni ei hun ei fod nhw o'r safon academaidd ofynnol i gyflawni'r cynllun astudio arfaethedig.

3. Rhaid i bob ymgeisydd gofrestru fel myfyriwr yn y Brifysgol ar ddechrau'r rhaglen a thalu'r ffioedd dysgu priodol.

4. Rhaid i ymgeiswyr fodloni'r meini prawf mynediad ar gyfer dod yn Athro Cymwysedig, fel sy'n ofynnol gan Gyngor Gweithlu Addysg Cymru.

## Strwythur a Dyfarniadau’r Cynllun

5. Bydd yr ymgeiswyr yn dilyn cynllun astudio ar ffurf modiwlau, gan ddechrau ar y dyddiad cychwyn priodol a gymeradwywyd ar gyfer y cynllun.

6. Rhaid i ymgeiswyr fynychu'r holl sesiynau dysgu yn yr Ysgol Addysg.

7. Rhaid i ymgeiswyr gwblhau lleoliad ymarfer proffesiynol mewn ysgol.

8. Gall ymgeiswyr fod yn gymwys i gael Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) gyda Statws Athro Cymwysedig ar ôl cwblhau'r canlynol yn llwyddiannus:

(a) 60 credyd ar Lefel 6 FfCChC a 60 credyd ar Lefel 7 FfCChC mewn cynllun astudio modiwlaidd a gymeradwywyd ac a ddarperir ar sail amser llawn.

(b) Lleoliadau ymarfer proffesiynol, gan ddangos eu bod wedi cyflawni’r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth yn unol â’r hyn sy'n ofynnol gan athrawon sydd newydd gymhwyso yn ôl Cyngor Gweithlu Addysg Cymru.

## Trosglwyddo Credydau

9. Ni chaniateir trosglwyddo credydau nac cydnabyddiaeth dysgu trwy brofiad blaenorol (RPEL) ac ni chânt eu hystyried yn rhan o'r broses dderbyn.

## Asesu

10. Asesir modiwlau yn unigol, yn unol â'r dulliau asesu a gymeradwywyd.

11. Bydd angen i ymgeiswyr gwblhau lleoliadau ymarfer proffesiynol, gan ddangos eu bod wedi cyflawni’r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth yn unol â’r hyn sy’n ofynnol gan athrawon sydd newydd gymhwyso yn ôl Cyngor Gweithlu Addysg Cymru.

12. Rhaid i fyfyrwyr basio pob un o'r 120 credyd i fod yn gymwys ar gyfer dyfarnu TAR iddynt.

13. Y marc pasio ar gyfer modiwlau fydd 40% ar gyfer modiwlau ar lefel 6.

14. Y marc pasio ar gyfer modiwlau fydd 50% ar gyfer modiwlau ar lefel 7.

## Y Cyfnod Cofrestru a’r Terfyn Amser

15. Y terfyn amser ar gyfer cwblhau'r Dystysgrif Addysg i Raddedigion yn llawn-amser fydd un sesiwn academaidd.

16. Bydd cyfnod o ddeuddeg mis ychwanegol ar gael i alluogi i fyfyrwyr ailsefyll unrhyw fodiwlau a fethwyd ac i gael eu hailarholi yn y lleoliad ymarfer proffesiynol.

17. Gall y Dirprwy Is-Ganghellor ganiatáu estyniadau i'r terfynau amser hyn ar sail amgylchiadau arbennig eithriadol os cyflwynir cais wedi'i ategu gan dystiolaeth o'r amgylchiadau arbennig ac achos cryf a rhesymedig sy'n dangos y gellir yn rhesymol ddisgwyl cwblhau’r cymhwyster o fewn cyfnod ychwanegol o 12 mis.

## Methu a Chywiro

18. Ni chaiff ymgeiswyr ailsefyll unrhyw fodiwl y maent eisoes wedi sicrhau marc pasio ar ei gyfer.

19. Gellir ailarholi ymgeiswyr sy'n cael llai na 40% mewn modiwl Lefel 6 neu 50% mewn modiwl Lefel 7 yn y modiwl hwnnw ar ddau achlysur dilynol o fewn y terfyn amser cyffredinol a ragnodwyd ar gyfer y cynllun. Bydd ymgeiswyr sy'n cael eu hailarholi mewn modiwl yn gymwys i gael y marc pasio sylfaenol yn unig (h.y. 40% ar gyfer modiwl Lefel 6 a 50% ar gyfer modiwl Lefel 7). Pan dderbynnir bod amgylchiadau arbennig wedi effeithio ar berfformiad, gellir caniatáu cyfleoedd ychwanegol i ailsefyll am y marc llawn. Ceir rhagor o wybodaeth am y polisi ailsefyll yn y Confensiynau Arholiadau ar gyfer y Dystysgrif Addysg i Raddedigion.

20. Gall byrddau arholi ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr nad ydynt yn dangos eu bod wedi cyflawni’r Safonau Proffesiynol ar sail lleoliadau ymarfer proffesiynol gael eu hailarholi ar un achlysur yn unig.

21. Dim ond os oes ysgol addas a gymeradwywyd gan y Bwrdd Arholi ar gael y gellir ailarholi lleoliadau ymarfer proffesiynol.

## Argymell Statws Athro Cymwysedig

22. Er mwyn bod yn gymwys i gael eu hargymell am Statws Athro Cymwysedig (SAC) i Gyngor Gweithlu Addysg Cymru, bydd myfyrwyr wedi:

(a) Dilyn a phasio pob elfen o'r rhaglen TAR;

(b) Bodloni’r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth sy'n ofynnol er mwyn argymell SAC;

(c) Bodloni gofynion presenoldeb y lleoliad ymarfer proffesiynol.

23. Dim ond Cyngor Gweithlu Addysg Cymru all gadarnhau cofrestriad ar gyfer Statws Athro Cymwysedig.

Wedi'i ddiweddaru: Gorffennaf 2021

# Rheoliadau ar gyfer Dyfarniadau Uwchraddedig Modiwlar trwy Gwrs

Mae'r Rheoliadau hyn yn llywodraethu dyfarnu nifer o fathau o raddau Meistr trwy gwrs, Tystysgrifau Uwchraddedig a Diplomâu ym Mhrifysgol Aberystwyth, sef y Brifysgol o hyn allan. Oni nodir fel arall, maent yn berthnasol i raglenni sy'n cychwyn o Fedi 2018. Bydd myfyrwyr a gofrestrwyd ar raglenni cyn y dyddiad hwnnw yn cael eu llywodraethu gan y rheoliadau a oedd mewn grym ar yr adeg y cawsant eu derbyn.

**Mynediad**

1. Rhaid i ymgeiswyr fod wedi cyrraedd 17 mlwydd oed neu fwy adeg cael mynediad ac, oni bai eu bod yn gallu bodloni Rheoliad 2 isod, rhaid iddynt ddal un o'r cymwysterau canlynol cyn dechrau'r cynllun:

(a) gradd gychwynnol o'r Brifysgol;

(b) gradd gychwynnol a ddyfarnwyd gan gorff dyfarnu graddau cymeradwyedig arall;

(c) cymhwyster anraddedig neu fod wedi cwblhau modiwlau uwchraddedig y mae'r Brifysgol wedi barnu eu bod o safon foddhaol at ddiben derbyn uwchraddedigion

2. Hefyd gellir derbyn personau sydd heb radd yn ymgeiswyr ar yr amod eu bod yn dal swydd gyfrifol sy'n berthnasol i'r cynllun sydd i'w ddilyn.

3. Rhaid i ddarpar ymgeisydd sydd eisoes yn meddu ar radd doethur ddangos bod y cynllun Gradd Meistr sydd i'w ddilyn mewn maes astudio gwahanol i'r un y dyfarnwyd y radd doethur amdano.

4. Ni waeth beth fo cymwysterau mynediad yr ymgeisydd, rhaid i'r sefydliad fodloni ei hun fod yr ymgeisydd o'r safon academaidd sy'n ofynnol i gwblhau'r cynllun astudio arfaethedig.

5. Rhaid i'r holl ymgeiswyr gofrestru fel myfyrwyr yn y Brifysgol ar ddechrau'r rhaglen a thalu'r ffioedd priodol.

**Strwythur y Cynllun a'r Dyfarniadau**

6. Bydd ymgeiswyr yn dilyn cynllun astudio modiwlar, gan ddechrau ar y dyddiad dechrau priodol a gymeradwyir ar gyfer y cynllun.

7. Caiff ymgeiswyr ymgymhwyso am Radd Meistr Modiwlar wedi iddynt gwblhau'n llwyddiannus 180 o gredydau FfCChC Lefel 7 (sef y Lefel M Addysg Uwch yn flaenorol) ar gynllun astudio modiwlar cymeradwyedig a ddarperir yn amser llawn, yn rhan-amser neu trwy ddysgu o bell. Beth bynnag fo’r dull dysgu, bydd cynnwys academaidd cynlluniau yn cyfateb i’w gilydd a rhaid i'r asesiad gynnwys traethawd hir neu'r hyn sy'n cyfateb ac sy'n gymeradwyedig (gweler Rheoliad 21, isod).

8. Caiff ymgeiswyr a dderbynnir i gynllun Gradd Meistr Modiwlar ymgymhwyso am ddyfarniadau canolradd y Brifysgol, fel a ddangosir ym mharagraff 10 y rheoliadau hyn, isod.

9. Oni phennir i'r gwrthwyneb yn Rheoliad 21 isod, bydd y modiwlau a ddysgir yn cwmpasu gwerth 120 o gredydau a gymeradwyir gan y Brifysgol. Hefyd gall fod yn ofynnol i ymgeiswyr gwblhau cyfnod, neu gyfnodau, o hyfforddiant proffesiynol neu brofiad ymarferol. 60 credyd fydd gwerth elfen traethawd hir y cynllun, neu’r hyn sy’n cyfateb i hyn ac sy’n gymeradwyedig (gweler Rheoliad 21 isod). Amlinellir y trefniadau ar wahân ar gyfer MRes yn Rheoliad 22 isod.

10. Caiff ymgeiswyr a dderbynnir i gynllun Meistr modiwlar ond nad ydynt yn mynd ymlaen i'w gwblhau ymgymhwyso ar gyfer un o’r dyfarniadau canlynol:

*Tystysgrif Uwchraddedig*

*(ar ôl ennill dim llai na 60 o gredydau ar Lefel 7 FfCChC, (Lefel M Addysg Uwch yn flaenorol);*

*Diploma Uwchraddedig*

*(ar ôl ennill 120 o gredydau ar Lefel 7 FfCChC (Lefel M Addysg Uwch yn flaenorol).*

Ni fydd y credydau a ddyfernir am gwblhau lleoliad gwaith yn y diwydiant yn cael eu cynnwys wrth ddyfarnu PGCert neu PGDip.

Mae'r Confensiynau Arholiadau ar gyfer Dyfarniadau Uwchraddedig Modiwlaidd yn gosod y gofynion ar gyfer llwyddo yn y Tystysgrif Uwchraddedig a'r Diploma Uwchraddedig.

Byddai myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar yr MA Gwleidyddiaeth Ryngwladol (Gradd Ddeuol) ac sy'n cwblhau 120 credyd yn llwyddiannus yn Aberystwyth ond nad ydynt yn mynd ymlaen i ail flwyddyn y cynllun yn gymwys ar gyfer dyfarnu MA Gwleidyddiaeth Ryngwladol iddynt.

**Trosglwyddo Credydau**

11. Ni chaiff mwyafswm y credydau y gellir eu trosglwyddo i gynlluniau astudio Meistr fod yn uwch na 120. Ni chaniateir trosglwyddo mwy na 30 credyd ar gyfer tystysgrif uwchraddedig, a dim mwy na 60 ar gyfer Diploma uwchraddedig. Rhaid i'rcredydau sydd i'w dilyn fod ar Lefel 7 FfCChC, (Lefel M Addysg Uwch yn flaenorol). Ni cheir priodoli credyd trosglwyddadwy i draethawd hir cynllun na'r hyn sy'n cyfateb i hynny ac sy'n gymeradwyedig. O fewn y terfyniadau hyn, caiff y Brifysgol, yn ôl ei ddisgresiwn, farnu bod perfformiad myfyriwr mewn unrhyw ddysgu blaenorol drwy brofiad perthnasol yn cyfrif tuag at y gofynion ar gyfer dyfarnu Gradd Meistr modiwlar. Bydd credydau a drosglwyddwyd yn cael eu cynnwys ar gyfer gofynion credydau'r cynllun, ond fel rheol ni fydd marciau'r credydau hynny yn cael eu cynnwys yng nghyfartaledd y marciau a ddefnyddir i bennu dosbarth y dyfarniad.

**Asesu**

12. Caiff modiwlau eu hasesu fesul un, yn unol â'r dulliau asesu cymeradwyedig. Hefyd gall fod yn ofynnol i ymgeiswyr arddangos eu bod wedi cwblhau'n llwyddiannus unrhyw gyfnod o hyfforddiant proffesiynol neu brofiad ymarferol.

13.  Rhaid i'r traethawd hir neu'r dewis arall cymeradwyedig (gweler Rheoliad 21 isod) ymgorffori dulliau a chanlyniadau prosiect ymchwil. Rhaid iddo beidio â bod yn hwy na 15,000 o eiriau (neu 30,000 o eiriau ar gyfer ymgeisyddiaethau am radd MRes).).

14.  Rhaid i fyfyrwyr basio o leiaf 160 o gredydau ac ennill marc o 50% am y cyfan ar gyfartaledd, a hwnnw wedi ei bwysoli, er mwyn ymgymhwyso ar gyfer dyfarniad gradd Meistr.

15.  Y marc pasio modiwlar fydd 50%. Bydd y Byrddau Arholi yn dyfarnu marciau cyffredinol yn unol â'r graddfeydd canlynol:

70% a throsodd : Lefel rhagoriaeth

60 - 69% : Lefel teilyngdod

50 - 59% : Pasio

0 - 49% : Methu

16.  Er mwyn cael gradd Meistr â Rhagoriaeth rhaid i ymgeisydd ennill marc cyfartaledd wedi'i bwysoli o 70% o leiaf am y cyfan. Gall ymgeiswyr nad ydynt yn cwrdd â'r gofynion ar gyfer Rhagoriaeth ond sy'n ennill marc cyffredinol ar gyfartaledd o 60% neu ragor ennill gradd Meistr â Theilyngdod. Esbonnir y gofynion hyn yn y Confensiynau Arholi ar gyfer cynlluniau uwchraddedig trwy gwrs.

*Cyfnodau Cofrestru a Therfynau Amser*

17. Rhaid cwblhau modiwlau a ddysgir fel a bennir gan strwythur y cynllun astudio cymeradwyedig. Rhaid cwblhau'r cynllun gradd llawn, gan gynnwys cyflwyno'r traethawd hir ar y ffurf a bennir, erbyn y cyfnodau canlynol o ddyddiad y cofrestru cychwynnol:

*Ymgeiswyr amser llawn: nid mwy na blwyddyn*

*Ymgeiswyr amser llawn (Meistr 2 flynedd): dim mwy na dwy flynedd*

*Noder: yn achos ymgeiswyr amser-llawn, bydd y canlyniadau yn cael eu cyflwyno i Fwrdd Arholi ar ôl y dyddiad cau terfynol o flwyddyn ar gyfer ystyried yr holl ymgeiswyr, hyd yn oed os bydd myfyrwyr unigol yn cyflwyno'r traethawd hir yn gynnar.*

*Ymgeiswyr rhan amser: nid mwy na 3 blynedd*

*Ni ddylai myfyrwyr Dysgu o Bell gael mwy na 2, 3 neu 5 mlynedd i gwblhau eu cynlluniau, yn ddibynnol ar hyd y cwrs.*

Mae rheoliadau ychwanegol ar gyfer rhaglenni Meistr amser llawn dwy flynedd ym mharagraff 30, isod. Mae'r rhain yn berthnasol i gynlluniau ansafonol â mwy na 180 o gredydau yn unig. Rhaid cwblhau pob cynllun Meistr safonol amser llawn o fewn blwyddyn.

Pan fydd cwrs yn dechrau ar adeg heblaw am ddechrau sesiwn academaidd ac na ellir, am resymau ymarferol, ei gwblhau o fewn 12 mis o astudio amser llawn neu'r hyn sy'n cyfateb yn rhan-amser, bydd yr adran yn pennu hyd y cwrs. Bydd y cyfnodau a ganiateir er mwyn cywiro methiant yn dilyn egwyddorion y rheoliadau ar gyfer cyrsiau 12 mis, h.y. dwy flynedd ar ôl cwblhau'r cyfnod cofrestru.

18. Er mwyn caniatáu adfer methiant a cyfnodau tynnu'n ôl dros dro, y cyfnod mwyaf o amser a ganiateir i gwblhau'r dyfarniad fydd y cyfnod cofrestru ynghyd â dwy flynedd, felly:

Ymgeiswyr amser llawn: dim mwy na 3 blynedd

Ymgeiswyr amser llawn (Meistr 2 flynedd): dim mwy na 4 blynedd

Ymgeiswyr rhan amser: dim mwy na 5 mlynedd

Ymgeiswyr Dysgu o Bell: dim mwy na 2 flynedd yn hwy na hyd y cynllun, hyd at uchafswm o 7 mlynedd.

O dan amgylchiadau arbennig eithriadol, gellir ymestyn y terfynau amser hyn gan y Dirprwy Is-Ganghellor yn dilyn cyflwyno cais sy'n cynnwys tystiolaeth o amgylchiadau

arbennig, ac achos cryf a rhesymol sy’n dangos disgwyliad rhesymol y gellir cwblhau o fewn cyfnod pellach o 12 mis.

**Methu ac Adfer**

19. Ni chaiff ymgeiswyr ailsefyll unrhyw fodiwl yr enillwyd marc pasio amdano yn flaenorol.

20. Gellir ailarholi ymgeiswyr sy'n ennill llai na 50% mewn modiwl yn y modiwl hwnnw dda dro arall, a hynny o fewn y terfyn amser cyffredinol a bennir ar gyfer y cynllun. Ni fydd ymgeiswyr a ailarholir mewn modiwl yn gymwys ond am y marc pasio moel (h.y. 50%). Os derbynnir bod amgylchiadau arbennig wedi effeithio ar berfformiad, gellir caniatáu ailsefyll ar gyfer y marc llawn. Ceir gwybodaeth bellach am y polisi ailsefyll yn y Confensiynau Arholiadau ar gyfer cynlluniau uwchraddedig trwy gwrs.

**Cyflwyno Traethawd Hir ac Adfer Methiannau**

21. Gall y modiwl astudio annibynnol 60 credyd fod ar ffurf traethawd hir ond gellir ei gymeradwyo hefyd mewn ffurfiau eraill sy’n bodloni canlyniadau dysgu’r cynllun gradd ym marn Panel Cymeradwyo’r Cynllun. Er enghraifft, gall cynlluniau’r Celfyddydau Creadigol a Pherfformiadol fod ar ffurf arteffact, sgôr, portffolio o weithiau gwreiddiol, perfformiad neu arddangosiad, ynghyd â sylwebaeth ysgrifenedig sy’n ei osod yn ei gyd-destun academaidd, ac unrhyw eitemau eraill a all fod yn ofynnol (e.e. catalog neu recordiad sain neu weledol). Mae enghreifftiau cymeradwyedig eraill yn cynnwys cyflwyno dau adroddiad a/neu gyflwyniadau a asesir yn seiliedig ar bwnc y traethawd hir.

*Dylid cymryd bod cyfeiriadau yn y paragraffau canlynol at ‘draethawd hir' yn cynnwys unrhyw ffurfiau o gyflwyno / asesu a fanylir yn y paragraff hwn.*

22. Gradd MRes: Yn achos ymgeiswyr sy'n astudio am radd MRes, bydd strwythur y cynllun yn gyfanswm o 180 o gredydau, gydag o leiaf 60 o gredydau a ddysgir, ac o leiaf 100 o gredydau yn cwmpasu'r traethawd hir.

23.  Mae ymgeiswyr yn rhydd i gyhoeddi'r cyfan, neu ran, o'r gwaith a gynhyrchir yn ystod cyfnod cofrestru'r ymgeiswyr yn y Brifysgol cyn iddynt ei gyflwyno yn ei gyfanrwydd, neu fel rhan o draethawd hir, ar yr amod na ddatgenir yn unman yn y gwaith cyhoeddedig ei fod yn cael ei ystyried am radd uwch. Caiff unrhyw gyfryw waith cyhoeddedig ei ymgorffori yn ddiweddarach yn y traethawd hir a gyflwynir i'w arholi.

24. Ar gyfer yr holl gynlluniau gradd Meistr trwy gwrs sydd wedi'u cymeradwyo, mae Tystysgrifau a Diplomâu Uwchraddedig ar gael fel dyfarniadau ar gyfer ymgeiswyr sy'n gadael cyn cwblhau'r 180 o gredydau sy'n ofynnol ar gyfer dyfarnu gradd Meistr neu ar gyfer yr ymgeiswyr hynny nad ydynt, adeg cwblhau'r radd, wedi pasio digon o gredydau er mwyn gallu dyfarnu'r cymhwyster iddynt. Mae'r rheoliad uchod a'r Confensiynau Arholiadau yn disgrifio ar ba sail y gellir rhoi'r dyfarniadau hyn. Dylai ymgeiswyr roi gwybod i'r Gofrestrfa Academaidd o fewn 6 wythnos i gwblhau'r credydau a ddysgir os oes arnynt eisiau cael dyfarniad gadael ar yr adeg honno, a pheidio â mynd yn eu blaenau i ymgymryd â'r traethawd hir/ymchwil.

25.  Ni chaiff ymgeiswyr ddiwygio'r traethawd hir, nac ychwanegu ato na dileu oddi wrtho ar ôl iddo gael ei gyflwyno i'w arholi.

26.  Wrth gyflwyno traethawd hir, rhaid i'r holl ymgeiswyr ddatgan i ba raddau y mae'n ganlyniad i'w gwaith neu i'w harchwiliad hwy eu hunain, a rhaid iddynt nodi unrhyw rannau y maent yn ddyledus i ffynonellau eraill amdanynt. Dylid rhoi cyfeiriadau clir, a rhaid atodi llyfryddiaeth lawn wrth y gwaith.

27.  Wrth gyflwyno traethawd hir, bydd pob ymgeisydd yn tystio nad yw eisoes wedi ei dderbyn yn sylweddol ar gyfer unrhyw ddyfarniad academaidd ac nad yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisyddiaeth ar gyfer dyfarniad arall o'r fath.

28.  Os na chyflwynir y traethawd hir o fewn y cyfnod cofrestru (gweler Rheoliad 17 uchod) bernir bod y myfyriwr wedi methu'r traethawd hir. Caniateir dau gyfle arall i ailsefyll, am farc o 50% wedi ei gapio, ac eithrio achosion lle ceir tystiolaeth o amgylchiadau arbennig. Ceir gwybodaeth bellach am y polisi ailsefyll yn y Confensiynau Arholiadau ar gyfer cynlluniau uwchraddedig trwy gwrs.

29.  Os bydd yr arholwyr yn methu traethawd hir, neu os bernir ei fod wedi methu trwy fethiant i gyflwyno, caiff yr ymgeisydd ei ailgyflwyno ar ddau achlysur arall. Caiff y dyddiad ar gyfer ailgyflwyno ei gyfathrebu i'r ymgeisydd gyda'r canlyniad a bydd angen ei ailgyflwyno mewn pryd ar gyfer cyflwyno'r marc ailsefyll i'r Bwrdd Arholi 12 mis ar ôl cadarnhau'r canlyniad gwreiddiol. Bydd ffi yn daladwy am arholi'r cyfryw draethawd hir a ailgyflwynir.

**Cynllun Meistr Dwy Flynedd Amser Llawn**

30. Gellir cymeradwyo rhaglen Meistr amser llawn i redeg hyd at ddwy flynedd. Gall fod, er enghraifft, yn gynllun cydweithredol gyda phartneriaid y mae eu dyfarniadau Meistr fel arfer yn hwy na blwyddyn, neu fod gofyn am ddwy flynedd o astudio er mwyn cwblhau'r modiwlau gofynnol yn y naill sefydliad a'r llall. Math arall o gynllun dwy flynedd fyddai ychwanegu lleoliad integredig mewn diwydiant o hyd at flwyddyn at raglen blwyddyn o hyd.

31. Lle cynigir cynllun o'r fath, cymerir yn ganiataol y bydd y rheoliadau uchod a'r rheolau sefydlog a chonfensiynau arholi cysylltiedig yn berthnasol o hyd, lle bo hynny'n bosibl. Lle bydd angen gwyro oddi wrth y rheoliadau, rheolau sefydlog a chonfensiynau presennol, dylid cynnig darpariaethau amgen priodol a'u cymeradwyo yn rhan o broses cymeradwyo'r rhaglen.

**Atodiad**

**Tystysgrifau a Diplomâu Uwchraddedig**

1.  Ar gyfer pob cynllun gradd Meistr trwy gwrs cymeradwyedig, mae Tystysgrifau a Diplomâu Uwchraddedig ar gael i'w dyfarnu i ymgeiswyr sy'n gadael cyn cwblhau'r 180 credyd gofynnol ar gyfer y radd Meistr, neu i'r sawl fydd wedi cwblhau'r cynllun ond heb basio nifer digonol o gredydau i ymgymhwyso. Mae'r rheoliad uchod a'r Confensiynau Arholiad yn disgrifio ar ba sail y gellir dyfarnu'r dyfarniadau hyn.

2. Gall ymgeiswyr hefyd ymgofrestru ar gyfer Tystysgrifau a Diplomâu Uwchraddedig amser llawn, rhan-amser neu trwy ddysgu o bell. Gall fod y rhain yn deillio o gynlluniau

Meistr sy'n bodoli eisoes ac sy'n dwyn yr un teitl, neu fe allant fod wedi'u cymeradwyo yn ddyfarniadau annibynnol a enwir ar wahân.

3. Ni ddylai'r traethawd hir na'r hyn sy'n cyfateb iddo yn gymeradwyedig o raglen Meistr ffurfio Tystysgrif gyfan na rhan o Ddiploma. Os bydd Tystysgrif neu Ddiploma yn dwyn yr un teitl â chynllun Meistr ac yn seiliedig ar fodiwlau sydd ar gael fel rhan o'r cynllun Meistr, rhaid i'r Athrofa sy'n darparu'r cynllun sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer strwythur cynllun sy'n dynodi pa fodiwlau y mae'n rhaid eu dilyn ac ym mha drefn.

4. Os darperir Tystysgrif neu Ddiploma annibynnol, rhaid iddi gael ei chymeradwyo yn gynllun astudio newydd yn cynnwys manylion rhaglen a strwythur cynllun.

5. Mae'r terfynau amser ar gyfer cwblhau Tystysgrifau a Diplomâu fel a ganlyn:

i. Tystysgrif Uwchraddedig, Amser llawn: un sesiwn academaidd

ii. Tystysgrif Uwchraddedig, Rhan-amser: dau sesiwn academaidd

iii. Tystysgrif Uwchraddedig, Dysgu o bell: dwy flynedd

iv. Diploma Uwchraddedig, Amser llawn: un sesiwn academaidd

v. Diploma Uwchraddedig, Rhan-amser: dau sesiwn academaidd

vi. Diploma Uwchraddedig, Dysgu o bell: pedair blynedd

Ym mhob achos bydd cyfnod ychwanegol o ddeuddeg mis ar gael i fyfyrwyr er mwyn caniatáu iddynt ailsefyll unrhyw fodiwlau a fethwyd; caniateir dau gyfle ailsefyll.

Bydd estyniadau i'r terfynau amser hyn yn cael eu seilio ar amgylchiadau arbennig eithriadol. Gellir eu cymeradwyo gan y Dirprwy Is-Ganghellor yn dilyn cyflwyno cais ynghyd â thystiolaeth o amgylchiadau arbennig, ac achos cryf a rhesymegol sy'n dangos bod disgwyliad rhesymol y bydd y gwaith yn cael ei gyflwyno o fewn cyfnod pellach o 12 mis.

6. Bydd darpariaethau’r rheoliadau uchod, y Confensiynau Arholiad a’r Cynllun Casglu a Throsglwyddo Credydau yn berthnasol yn union yr un modd i Dystysgrifau a Diplomâu o ran gofynion mynediad, lefel y modiwlau a ganiateir oddi mewn i gymwysterau uwchraddedig trwy gwrs, marciau pasio modiwlar, adfer methiant ac unrhyw fater arall nas cyfeiriwyd ato yn yr atodiad hwn.

# Rheoliadau ar gyfer Graddau Meistr Proffesiynol ac ar sail Ymarfer trwy Arholiad a Thraethawd Ymchwil neu Bortffolio

Mae'r rheoliadau hyn yn llywodraethu dyfarnu Graddau Meistr mewn ymarfer proffesiynol (Meistr Proffesiynol – MProf yw'r enw generig – neu ddyfarniad ac iddo enw penodol) ym Mhrifysgol Aberystwyth. Caiff Graddau Meistr Proffesiynol ac ar sail Ymarfer eu dyfarnu i gydnabod cwblhau'n llwyddiannus raglen astudio trwy gwrs gymeradwyedig, ynghyd â chwblhau prosiect ymchwil yn y gweithle yn llwyddiannus.

Fel arfer, bydd prosiectau ymchwil yn y graddau Meistr Proffesiynol yn cael eu lleoli ym mhroffesiwn neu faes ymarfer yr ymgeisydd. Mewn graddau Meistr ymarferwyr neu faes ymarfer, bydd allbwn yr ymgeisydd yn cwmpasu deunyddiau sy'n gysylltiedig ag ymarfer. Er enghraifft, yn y celfyddydau perfformio, mae'r allbwn yn cynnwys elfen ysgrifenedig, sy'n cyd-fynd â'r elfen ymarfer ac yn cynnwys myfyrio a chyd-destun, ac un neu ddau arteffact arall, megis nofel (ar gyfer ysgrifennu creadigol), portffolio o waith (ar gyfer celf a dylunio), neu un neu ragor o ddarnau perfformio (ar gyfer astudiaethau theatr, dawns neu gerddoriaeth).

Mae gwreiddiau graddau Meistr Proffesiynol mewn disgyblaeth academaidd yn ogystal â phroffesiwn (addysg, y gyfraith ac yn y blaen). Bydd ymgeiswyr y mae eu gwaith ymchwil yn seiliedig ar ymarfer yn unig, ac nad ydynt yn gweithio mewn maes proffesiynol sy'n perthyn i faes academaidd, ac sy'n treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn dysgu yn y gweithle yn hytrach na chyda'r darparwr addysg uwch yn fwy tebygol o gwblhau gradd Meistr ar sail ymarfer. Yn achos graddau Meistr ar sail ymarfer a Meistr Proffesiynol, gall ymchwil yr ymgeisydd arwain yn uniongyrchol at newid sefydliadol neu newid polisi.

Diben y radd yw galluogi gweithwyr proffesiynol cymwys i ymwneud â Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ar lefel uchel ac i astudio am radd Meistr tra eu bod hefyd yn gyflogedig ac â chyswllt clòs â'u proffesiwn/gweithle.

Gall y radd MProf fod yn gymhwyster annibynnol neu'n bwynt gadael oddi mewn i raglen Doethuriaeth Broffesiynol. Yn achos yr olaf, byddai'r MProf yn ffurfio Rhan Un rhaglen Doethuriaeth Broffesiynol (DProf).

Bydd graddau o'r fath yn cael eu dyfarnu i fyfyrwyr sydd wedi dangos bod ganddynt:

• ddealltwriaeth systematig o wybodaeth, ac ymwybyddiaeth feirniadol o broblemau cyfredol a/neu syniadau newydd, y mae llawer ohonynt ar flaen y gad ym maes eu hymarfer proffesiynol, neu'n seiliedig arno
• ddealltwriaeth gynhwysfawr o dechnegau y gellir eu defnyddio ar gyfer eu gwaith ymchwil neu ysgolheictod uwch
• wreiddioldeb wrth ddefnyddio gwybodaeth, yn ogystal â dealltwriaeth ymarferol o sut y defnyddir technegau ymchwilio ac ymholi traddodiadol i greu a dehongli gwybodaeth yn y ddisgyblaeth neu faes ymarfer proffesiynol neu sy'n debygol o arwain at newid proffesiynol neu sefydliadol yng ngweithle/proffesiwn y myfyriwr;
• ddealltwriaeth gysyniadol sy'n galluogi'r myfyriwr i gloriannu'n feirniadol ymchwil cyfredol ac ysgolheictod uwch yn y ddisgyblaeth a/neu i gloriannu methodolegau a datblygu beirniadaethau ohonynt a, lle bo'n briodol, i gynnig damcaniaethau newydd.

Yn nodweddiadol, bydd deiliaid y cymhwyster yn gallu:

• ymdrin â materion cymhleth yn systematig ac yn greadigol, barnu'n gadarn yn absenoldeb data cyflawn, a gallu cyfathrebu eu casgliadau yn glir i gynulleidfaoedd arbenigol ac anarbenigol
• arddangos hunangyfeiriad a gwreiddioldeb wrth fynd i'r afael â phroblemau a'u datrys, a gweithredu yn ymreolus wrth gynllunio a gweithredu tasgau ar lefel broffesiynol neu lefel gyfatebol
• parhau i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, ac i ddatblygu sgiliau newydd i lefel uwch.

A bydd gan ddeiliaid:

y rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy angenrheidiol ar gyfer mynediad i, neu ddatblygiad proffesiynol parhaus oddi mewn i, broffesiwn neu gyflogaeth penodol, gan gynnwys

• defnyddio menter ac arfer cyfrifoldeb personol
• gwneud penderfyniadau mewn sefyllfaoedd cymhleth ac anrhagweladwy
• y gallu i ddysgu'n annibynnol

Caiff graddau Meistr Proffesiynol eu hasesu trwy gwblhau modiwlau a ddysgir a gwaith prosiect ymchwil a fydd yn dangos i ba raddau y mae'r ymgeisydd yn deall technegau cyfredol yn y pwnc, er enghraifft trwy arddangos ymgysylltu â, a'r defnydd o, ddulliau ymchwil a sut maent yn hysbysu neu'n arwain at newid mewn ymarfer proffesiynol.

Ar ôl cwblhau Meistr Proffesiynol (MProf), bydd graddedigion wedi cyflawni Lefel 7, fel y'i diffinnir gan Fframwaith yr ASA ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch Cyrff Dyfarnu Graddau'r DU Hydref 2014.

Rheoliadau

**Mynediad**

1. Rhaid i ymgeiswyr fod mewn cyflogaeth berthnasol neu'n ymwneud ag ymarfer proffesiynol perthnasol. I gael eu derbyn, rhaid iddynt NAILL AI ddal un o'r cymwysterau canlynol cyn dechrau'r cynllun:

(a) gradd gychwynnol o'r Brifysgol;
(b) gradd gychwynnol a ddyfarnwyd gan gorff dyfarnu cymeradwyedig arall;
(c) cymhwyster anraddedig neu fod wedi cwblhau modiwlau uwchraddedig y mae'r Brifysgol wedi barnu eu bod o safon foddhaol at ddiben derbyn uwchraddedigion.

NEU gellir eu derbyn ar sail eu hoed a phrofiad perthnasol yn ôl tystiolaeth cyhoeddiadau, adroddiadau neu bortffolio o dystiolaeth briodol arall.

2. Ni waeth beth fo cymwysterau'r ymgeisydd, rhaid i'r sefydliad fodloni ei hun fod yr ymgeisydd o'r safon academaidd sy'n ofynnol i gwblhau'r cynllun astudio arfaethedig.

3. Rhaid i ddarpar ymgeisydd sydd eisoes yn meddu ar radd ddoethur ddangos bod y cynllun Gradd Meistr y bwriedir ei ddilyn mewn gwahanol faes astudio i'r maes y dyfarnwyd gradd ddoethur ar ei gyfer.

4. Rhaid i'r holl ymgeiswyr gofrestru fel myfyrwyr yn y Brifysgol ar ddechrau'r rhaglen a thalu'r ffioedd priodol.

**Strwythur y Cynllun a'r Dyfarniadau**

5. Bydd ymgeiswyr yn dilyn cynllun astudio modiwlar, gan ddechrau ar y dyddiad dechrau priodol a gymeradwyir ar gyfer y cynllun.

6. Caiff ymgeiswyr ymgymhwyso am Radd Meistr Proffesiynol Modiwlar wedi iddynt gwblhau'n llwyddiannus 180 o gredydau FfCChC Lefel 7 (sef y Lefel M Addysg Uwch yn flaenorol) ar gynllun astudio modiwlar cymeradwyedig a ddarperir yn amser llawn, yn rhan-amser neu trwy ddysgu o bell. Beth bynnag fo'r dull dysgu, bydd cynnwys academaidd cynlluniau yn briodol ar gyfer astudiaethau Lefel 7 a rhaid i'r asesiad gynnwys prosiect ymchwil yn y gweithle neu'r hyn sy'n cyfateb ac sy'n gymeradwyedig i hynny.

7. Efallai na chaiff ymgeiswyr a dderbynnir i gynllun Gradd Meistr Proffesiynol Modiwlar ymgymhwyso am ddyfarniadau canolradd y Brifysgol.

8. Bydd y modiwlau a ddysgir yn cwmpasu gwerth hyd at 120 o gredydau a gymeradwyir gan y Brifysgol. Bydd elfen y prosiect, neu'r elfen gymeradwy gyfatebol, gwerth o leiaf 60 credyd.

**Trosglwyddo Credydau**

9. Ni chaiff mwyafswm y credydau y gellir eu trosglwyddo i gynlluniau astudio fod yn uwch na 60. Rhaid i weddill y credydau sydd i'w dilyn fod ar Lefel 7 FfCChC, (Lefel M Addysg Uwch yn flaenorol). Ni cheir priodoli credyd trosglwyddadwy i'r prosiect neu

elfen gymeradwy gyfatebol cynllun. O fewn y terfynau hyn, gall y Brifysgol, yn ôl ei disgresiwn, farnu bod perfformiad myfyriwr mewn unrhyw ddysgu blaenorol drwy brofiad perthnasol yn cyfrif tuag at y gofynion ar gyfer dyfarnu Gradd Meistr modiwlar.

**Asesu**

10. Caiff modiwlau eu hasesu fesul un, yn unol â'r dulliau asesu cymeradwyedig.

11. Caiff y prosiect ei gyflwyno ar ffurf traethawd hir neu waith cyfatebol heb fod yn fwy na 15,000 o eiriau.

12. Rhaid i fyfyrwyr basio o leiaf 160 o gredydau ac ennill marc o 50% am y cyfan ar gyfartaledd, er mwyn ymgymhwyso ar gyfer dyfarniad gradd Meistr a/neu symud ymlaen i Ran Dau Gradd Ddoethurol (DProf).

13. Y marc pasio modiwlar fydd 50%. Bydd y Byrddau Arholi yn dyfarnu marciau cyffredinol yn unol â'r graddfeydd canlynol:

| | |
|---|---|
| 70% a throsodd: | Lefel rhagoriaeth |
| 60 - 69%: | Lefel teilyngdod |
| 50 - 59%: | Pasio |
| 0 - 49%: | Methu |

14. Er mwyn cael gradd Meistr â Rhagoriaeth rhaid i ymgeisydd ennill marc cyfartaledd wedi'i bwysoli o 70% o leiaf am y cyfan. Gall ymgeiswyr nad ydynt yn cwrdd â'r gofynion ar gyfer Rhagoriaeth ond sy'n ennill marc cyffredinol ar gyfartaledd o 60% neu ragor ennill gradd Meistr â Theilyngdod. Esbonnir y gofynion hyn yn y Confensiynau Arholi ar gyfer cynlluniau uwchraddedig trwy gwrs.

15. Rhaid cwblhau modiwlau a ddysgir fel a bennir gan strwythur y cynllun astudio cymeradwyedig. Rhaid cwblhau'r cynllun gradd llawn, gan gynnwys cyflwyno'r traethawd hir ar y ffurf a bennir, erbyn y cyfnodau canlynol o ddyddiad y cofrestru cychwynnol:

| |
|---|
| Ymgeiswyr amser llawn: nid mwy na blwyddyn |
| Noder: yn achos ymgeiswyr amser llawn, bydd y canlyniadau yn cael eu cyflwyno i Fwrdd Arholi ar ôl y dy<br>ystyried yr holl ymgeiswyr, hyd yn oed os bydd myfyrwyr unigol yn cyflwyno'r traethawd hir yn gynnar |
| Ymgeiswyr rhan-amser: nid mwy na 3 blynedd |

**Methu ac Adfer**

16. Ni chaiff ymgeiswyr ailsefyll unrhyw fodiwl nac uned asesu yr enillwyd marc pasio amdano yn flaenorol.

Er hynny, caiff ymgeiswyr sydd, gyda chytundeb Bwrdd Arholi'r Senedd, yn ailsefyll blwyddyn astudio lawn wneud hynny am yr union farciau a enillir ar yr amod bod y marciau blaenorol yn cael eu hildio'n llawn o'r cychwyn.

17. Gellir ailarholi ymgeiswyr sy'n ennill llai na 50% mewn modiwl yn y modiwl hwnnw un tro arall, a hynny o fewn y terfyn amser cyffredinol a bennir ar gyfer y cynllun. Ni fydd ymgeiswyr a ailarholir mewn modiwl yn gymwys ond am y marc pasio moel (h.y. 50%). Os derbynnir bod amgylchiadau arbennig wedi effeithio ar berfformiad, gellir caniatáu ailsefyll ar gyfer y marc llawn.

**Ffurfiau'r Prosiect ac Adfer Methiannau**

18. Gall y prosiect ymchwil fod ar ffurf prosiect/traethawd hir ond gellir ei gymeradwyo hefyd mewn ffurfiau eraill sy'n bodloni canlyniadau dysgu'r cynllun gradd ym marn Panel Cymeradwyo'r Cynllun. Er enghraifft, gall cynlluniau'r Celfyddydau Creadigol a

Pherfformiadol fod ar ffurf arteffact, sgôr, portffolio o weithiau gwreiddiol, perfformiad neu arddangosfa, ynghyd â sylwebaeth ysgrifenedig sy’n ei osod yn ei gyd-destun academaidd, ac unrhyw eitemau eraill a all fod yn ofynnol (e.e. catalog neu recordiad sain neu weledol).

Dylid cymryd bod cyfeiriadau yn y paragraffau canlynol at ‘brosiect’ yn cynnwys unrhyw ffurfiau cyfatebol o gyflwyno/asesu a fanylir yn y paragraff hwn.

19. Mae ymgeiswyr yn rhydd i gyhoeddi’r cyfan, neu ran, o’r gwaith a gynhyrchir yn ystod cyfnod cofrestru’r ymgeiswyr yn y Brifysgol cyn iddynt ei gyflwyno yn ei gyfanrwydd, neu fel rhan o draethawd hir, ar yr amod na ddatgenir yn unman yn y gwaith cyhoeddedig ei fod yn cael ei ystyried am radd uwch. Caiff unrhyw gyfryw waith cyhoeddedig ei ymgorffori yn ddiweddarach yn y traethawd hir a gyflwynir i’w arholi.

20. Ni chaiff ymgeiswyr ddiwygio’r traethawd hir, nac ychwanegu ato na dileu oddi wrtho ar ôl iddo gael ei gyflwyno i’w arholi.

21. Wrth gyflwyno traethawd hir, rhaid i’r holl ymgeiswyr ddatgan i ba raddau y mae’n ganlyniad i’w gwaith neu i’w harchwiliad hwy eu hunain, a rhaid iddynt nodi unrhyw rannau y maent yn ddyledus i ffynonellau eraill amdanynt. Dylid rhoi cyfeiriadau clir, a rhaid atodi llyfryddiaeth lawn wrth y gwaith.

22. Wrth gyflwyno traethawd hir, bydd pob ymgeisydd yn tystio nad yw eisoes wedi ei dderbyn yn sylweddol ar gyfer unrhyw ddyfarniad academaidd ac nad yw’n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisyddiaeth ar gyfer dyfarniad arall o’r fath.

23. Os na chyflwynir y traethawd hir o fewn y terfyn amser a bennir gan y Brifysgol (gweler Rheoliad 15 uchod) bernir bod yr ymgeisyddiaeth wedi dod i ben ac ni fydd cyfle arall i gyflwyno.

24. Os bydd yr arholwyr yn methu traethawd hir, caiff yr ymgeisydd ei ailgyflwyno unwaith yn unig. Caiff y dyddiad ar gyfer ailgyflwyno ei gyfathrebu i’r ymgeisydd gyda’r canlyniad a bydd angen ei ailgyflwyno mewn pryd ar gyfer cyflwyno’r marc ailsefyll i’r

Bwrdd Arholi 12 mis ar ôl cadarnhau'r canlyniad gwreiddiol. Bydd ffi yn daladwy am arholi'r cyfryw draethawd hir a ailgyflwynir.

**RHEOLIADAU (GAN GYNNWYS RHEOLIADAU ASESU) AR GYFER Y RHAGLEN GRADD MEISTR MA 'CENEDLAETHOL' MEWN ADDYSG (CYMRU) 180 O GREDYDAU**

**TEITL Y DYFARNIAD:MA MEWN ADDYSG (CYMRU)**

**CYD-DESTUN**

BYDD Y RHAGLEN MEISTR GENEDLAETHOL RAN-AMSER MEWN ADDYSG (CYMRU) (Y RHAGLEN GENEDLAETHOL) AR GAEL I ATHRAWON YN Y SECTOR ADDYSG ORFODOL YN SAESNEG AC YN GYMRAEG. Darperir y rhaglen gan bartneriaeth Cymru gyfan sy'n cynnwys 'sefydliadau sy'n cyfranogi', wedi'i chefnogi gan Lywodraeth Cymru, i gynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n adlewyrchu'r cyd-destun cenedlaethol. Bydd y rhaglen yn galluogi myfyrwyr i ymgysylltu ag ymchwil sy'n ategu polisi a'i chymhwyso, a deall yr effaith y bydd yr ymchwil hon yn ei chael ar ymarfer dysgu. Mae'r rhaglen ar gyfer ymarferwyr addysg yng Nghymru ar bob lefel, o athrawon gyrfa gynnar i uwch-arweinwyr. Datblygir fframwaith ar gyfer dysgu proffesiynol achrededig i'r proffesiwn addysgu, mewn ymateb i ofyniad Llywodraeth Cymru am ymagwedd gydweithredol at ddarparu strategaeth dysgu proffesiynol. Mae'r rhaglen Meistr yn drosglwyddadwy yng Nghymru, ac ystyrir trosglwyddo credydau rhwng Sefydliadau sy'n Cyfranogi yn unol â gweithdrefnau lleol y sefydliadau.

Mae'r rheoliadau academaidd ar gyfer y Rhaglen Genedlaethol a nodir isod (y Rheoliadau Cenedlaethol) yn rheoli ei gweithrediad a'i gwaith asesu, ac fe'u cymeradwyir gan yr holl Brifysgolion sy'n cyfranogi yn y Bartneriaeth (y Sefydliadau sy'n Cyfranogi, y caiff pob un ohonynt weithredu ei reoliadau lleol ei hun lle nodir hynny yn y Fframwaith Rheoleiddio Cenedlaethol hwn).

**<u>Egwyddor</u>**

Caiff materion nad ydynt wedi'u cynnwys yn y rheoliadau hyn eu trin yn  rheoliadau asesu a darpariaethau cysylltiol y Sefydliad perthnasol sy'n Cyfranogi, lle mae'r rhain yn cynnwys darpariaethau sy'n berthnasol i faterion fel hynny.

**Diffiniadau**

**Modiwlau Dewisol**

Modiwlau y gall myfyrwyr eu dewis.

**Modiwlau Gorfodol**

Mae Modiwlau Gorfodol yn gydrannau hanfodol rhaglen astudio y mae'n rhaid i fyfyrwyr ar y Rhaglen eu hastudio.

**Modiwlau Craidd**

Rhaid astudio a llwyddo mewn Modiwlau Craidd.
Gallai modiwlau 'dewisol' droi'n rhai craidd ar ôl eu dewis.

**Traethawd hir**

Darn sylweddol o waith hunan-gyfeiriedig gwerth 60 credyd, hyd at uchafswm o 20,000 o eiriau.

**Sefydliad sy'n Cyfranogi**

Y Brifysgol sy'n bartner, sy'n cynnig y rhaglen MA Cenedlaethol mewn Addysg (Cymru) y mae'r myfyriwr wedi cofrestru amdani.

**Bwrdd Arholi**

Bwrdd Arholi pob Sefydliad sy'n Cyfranogi, wedi'i iawn gyfansoddi.

**RHEOLIADAU AR GYFER Y CWRS MA 'CENEDLAETHOL' MEWN ADDYSG (CYMRU)**

**1. Strwythur y Rhaglen Genedlaethol**

1.1 Rhaglen ran-amser yn unig yw'r Rhaglen Genedlaethol, sy'n cynnwys modiwlau gwerth 180 o gredydau ar Lefel 7 yr FHEQ, gyda modiwlau a addysgir gwerth 120 o gredydau (gan gynnwys credydau RPL) a Thraethawd Hir gwerth 60 o gredydau. Bydd myfyrwyr sy'n cwblhau'r Rhaglen Genedlaethol yn llwyddiannus yn gymwys am ddyfarniad MA 'Cenedlaethol' mewn Addysg (Cymru).

| Blwyddyn Astudio | Credydau/Disgrifiad |
|---|---|
| **1** | 60 credyd, Addysgir/RPL |
| **2** | 60 credyd, Addysgir |
| **3** | 60 credyd, Traethawd Hir |

1.2 Pennir deilliannau dysgu ar gyfer y Rhaglen Genedlaethol ym manyleb y rhaglen. Pennir cymwysterau canolraddol neu gymwysterau ymadael/wrth gefn, isod.

1.3 Ystyrir pob modiwl (gorfodol a dewisol) yn fodiwl 'craidd' ar ôl cael ei ddewis, a bydd yn rhaid i fyfyrwyr lwyddo ym mhob un er mwyn bod yn gymwys am ddyfarniad gradd Meistr.

**2. Terfynau Amser**

2.1 Caiff modiwlau a addysgir eu cwblhau a'u hasesu yn unol â'r gofynion a'r dyddiadau y bydd pob Sefydliad sy'n Cyfranogi yn eu pennu. Caiff y rhaglen radd gyfan ei chwblhau o fewn y cyfnodau canlynol o ddyddiad y cofrestru gwreiddiol:

| **Dull Astudio** | |
|---|---|
| **Rhan-amser** | fod yn llai na 24 mis, a heb fod yn fwy na 5 mlynedd |

Pan fydd ymgeisydd wedi ymuno â'r Rhaglen Genedlaethol gydag RPL ar ôl yr amser cychwyn arferol, bydd y cyfnod ar gyfer cwblhau astudiaethau yn seiliedig ar yr hyn fyddai'r amser cychwyn arferol pe tasai'r myfyriwr wedi astudio'r rhaglen gyfan yn y Brifysgol sy'n Cyfranogi.

## 3. Estyniadau i'r Dyddiad Cau ar gyfer Cyflwyno Traethodau Hir

3.1 Rhaid cwblhau ceisiadau am estyniad i'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r Traethawd Hir (neu ffurfiau eraill o liniaru y cytunwyd arnynt) yn unol â rheoliadau a phrosesau'r Sefydliad perthnasol sy'n Cyfranogi ac yn unol â'r dyddiadau cau a nodir.

## 4. Strwythur Addysgu ac Asesu

4.1 Pennir y patrwm addysgu a'r strwythur asesu gan y Bwrdd Rheoli Cenedlaethol sy'n cynrychioli'r Sefydliadau sy'n Cyfranogi, fel y nodir ym Manyleb y Rhaglen.

## 5. Cymwysterau Ymadael

5.1 Gallai myfyrwyr sy'n cael eu derbyn i'r Rhaglen Genedlaethol gan Brifysgol sy'n Cyfranogi ond nad oes modd, neu ganiatâd, iddynt symud ymlaen i gwblhau'r cwrs MA ar ôl hynny drwy fethu pasio pob modiwl ar ôl y tair ymgais a ganiateir, neu y mae angen iddynt dynnu'n ôl o'r rhaglen am reswm arall, fod yn gymwys am un o ddyfarniadau canlynol y Brifysgol honno fel Cymhwyster Ymadael, fel a ganlyn:

5.2 Gellir ystyried dyfarnu Tystysgrif Ôl-raddedig (Tystysgrif Addysg i Raddedigion (Cymru)) i fyfyrwyr sy'n cwblhau 60 credyd ar Lefel 7.

**Nid** yw Tystysgrif Ôl-raddedig **ar gael** fel Cymhwyster Ymadael i fyfyrwyr sy'n dechrau'r rhaglen gyda 60 credyd RPL.

5.3 Gellir ystyried dyfarnu Diploma Ôl-raddedig (Diploma Addysg i Raddedigion (Cymru)) i fyfyrwyr sy'n cwblhau 120 credyd ar Lefel 7, y bydd yn rhaid ennill o leiaf 60 credyd o'r cyfanswm hwnnw yn y sefydliad sy'n cyfranogi.

5.4 Dosberthir y Cymwysterau Ymadael fel a ganlyn:

| Dyfarniad | Rhagoriaeth | Teilyngdod | Pasio |
|---|---|---|---|
| Tystysgrif Ôl-raddedig | 70%+ | 60-69.99% | 50-59.99% |
| Diploma Ôl-raddedig | 70%+ | 60-69.99% | 50-59.99% |

**6. Traethawd Hir (60 credyd).**

6.1 Cwblheir pob ymgeisyddiaeth drwy gyflwyno traethawd hir a chymeradwyo ansawdd canlyniadau'r gwaith hwnnw gan yr arholwyr priodol.

Goruchwylio Traethodau Hir

6.2 Ar gyfer pob myfyriwr mewn Sefydliad sy'n Cyfranogi, bydd y Brifysgol honno'n cymeradwyo un goruchwyliwr (y Goruchwyliwr) a fydd yn tywys ac yn goruchwylio myfyrwyr yn unol â rheoliadau ac arweiniad perthnasol y Brifysgol honno, fel y diffiniwyd yn Llawlyfr y Rhaglen.

Arholi Traethodau Hir

6.3 Caiff yr holl waith sy'n ymwneud â Thraethodau Hir ei farcio gan ddau aelod mewnol o staff yn y Brifysgol sy'n Cyfranogi.

Os bydd yn amhosibl dyrannu dau aelod mewnol o staff, dylid penodi marciwr allanol i fod yn ail farciwr a dylid gofyn i'r Arholwr/Arholwyr Allanol gadarnhau y cafwyd gwaith cymedroli.

6.4 Dylai Arholwr Allanol y Sefydliad sy'n Cyfranogi a'r Arholwr/Arholwyr Allanol Cenedlaethol gymedroli sampl o waith Traethodau Hir. Ar ôl i'r canlyniadau gael eu cymeradwyo gan Arholwr Allanol pob Sefydliad, caiff y samplau eu hadolygu ar ôl hynny gan yr Arholwyr Allanol Cenedlaethol drwy'r Bwrdd Astudiaethau Academaidd Cenedlaethol er mwyn monitro safonau a chyfwerthedd asesu ac adborth yn y ddarpariaeth ar draws yr holl sefydliadau.

(Mae’r rheoliadau samplu fel a ganlyn: O leiaf 10% o gyfanswm y darnau o waith (lleiafswm o 6) gan gynnwys o leiaf un darn o bob dosbarth (Llwyddo, Teilyngdod, Rhagoriaeth, lle y bo’n briodol).

6.5 Er ei bod yn arferol i'r un Arholwr Allanol arholi ymgeisydd ar gyfer y rhaglen, gellir penodi arholwr annibynnol i arholi'r gwaith os oes angen gwybodaeth neu arbenigedd arbenigol.

6.6 Cadarnheir y marciau yng nghyfarfodydd Byrddau Arholi perthnasol y Sefydliad sy'n Cyfranogi.

Cyflwyno Traethodau Hir

6.7 Rhaid cyflwyno traethodau hir yn unol â pholisi cyflwyno'r Sefydliadau sy'n Cyfranogi, fel y diffiniwyd yn Llawlyfr y Rhaglen.

6.8 Diffinnir cyflwyno'r gwaith fel cyflwyno darn neu ddarnau o waith yn unol â'r gofynion ar gyfer cyflwyno Traethodau Hir (uchod) a dylai hynny fodloni'r gofynion y mae'r Sefydliad sy'n Cyfranogi wedi'u pennu. Mae gan Sefydliad sy'n Cyfranogi ddisgresiwn i benderfynu a yw cyflwyniad yn bodloni'r gofynion hyn ai peidio.

6.9 Bydd gan fyfyrwyr sy'n methu cyflwyno eu Traethawd Hir erbyn y dyddiad cau un cyfle arall i'w gyflwyno. Bydd myfyrwyr sy'n methu cyflwyno eu gwaith erbyn y dyddiad cau am yr eildro yn methu'r rhaglen ac yn cael eu hystyried am ddyfarniad y Diploma/Dystysgrif Addysg 'Genedlaethol' i Raddedigion (Cymru) fel dyfarniad ymadael.

**Ailgyflwyno Traethodau Hir**

6.10 Os na fydd y gwaith yn bodloni'r safonau gofynnol ar gyfer dyfarniad, mae'n bosibl y caniateid i'r myfyriwr ei ailgyflwyno unwaith yn unig ymhen y terfynau amser canlynol:

| Dull Astudio | |
|---|---|
| **RHAN-AMSER** | 6 mis (ar ôl i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi'n swyddogol gan y Brifysgol) |

6.11 Mae'r Sefydliadau sy'n Cyfranogi wedi penderfynu a chytuno ar ffi gwerth £124 ar gyfer ail-arholi Traethodau Hir, a chaiff y marc ei gapio ar 50%.

6.12 Dylai myfyrwyr sy’n ailgyflwyno gwaith dderbyn adborth ysgrifenedig ar y rhesymau dros fethu yn union ar ôl cael cadarnhad o’r canlyniad. Dylai'r adborth adlewyrchu holl sylwadau'r Arholwyr (Mewnol ac Allanol). Dylid rhoi gwybod i'r myfyriwr am y newidiadau y mae eu hangen ar y gwaith i gyrraedd y safon i basio.

6.13 Dim ond mân newidiadau i deitl eu gwaith y caiff myfyrwyr sy’n ailgyflwyno eu gwaith eu gwneud, gyda chaniatâd eu Goruchwyliwr. Ni ddylai newidiadau o’r fath beri bod angen unrhyw ymchwil gwreiddiol pellach, oni bai fod amgylchiadau esgusodol y cytunwyd arnynt.

6.14 Fel arfer, ni fydd disgwyl i fyfyrwyr sy'n ailgyflwyno eu gwaith fod yn bresennol yn y Sefydliad sy'n Cyfranogi yn ystod y cyfnod ailgyflwyno, ac ni fydd yn derbyn goruchwyliaeth na chymorth ffurfiol yn ystod y cyfnod hwn.

**Cyhoeddi Gwaith**

6.15 Caiff myfyriwr gyhoeddi’r gwaith cyfan neu ran o’r gwaith a gynhyrchwyd yn ystod ei gyfnod cofrestru yn y Brifysgol sy'n Cyfranogi, cyn ei gyflwyno yn ei gyfanrwydd neu'n rhannol, ar yr amod na nodir yn unrhyw le yn y gwaith a gyhoeddir ei fod yn cael ei

ystyried ar gyfer gradd uwch. Gall y gwaith a gyhoeddwyd gael ei gynnwys yn nes ymlaen yn y traethawd hir a gyflwynir i'w arholi.

**Gwahardd mynediad**

6.16 Er gwaethaf y darpariaethau yn y rheoliadau sy'n ymwneud ag argaeledd dysgu annibynnol dan gyfarwyddyd, gall y Sefydliad sy'n Cyfranogi gael caniatâd, ar sail argymhelliad arbennig a gymeradwyir gan Bennaeth Adran/Coleg/Ysgol/Cyfadran y myfyriwr neu ei enwebai, i atal unrhyw un rhag llungopïo a/neu gael mynediad at waith ymgeisydd am gyfnod o hyd at bum mlynedd. Cyfrifoldeb goruchwyliwr yr myfyriwr fydd cyflwyno cais priodol i Bennaeth yr Adran/Coleg/Ysgol/Gyfadran neu ei enwebai cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Byddai'r gwaharddiad hwn hefyd yn berthnasol i aelodau'r Sefydliad sy'n Cyfranogi.

6.17 Dylai'r crynodeb a'r teitl fod ar gael yn ddirwystr.

6.18 Mae'n rhaid i unrhyw argymhelliad am wahardd mynediad gael ei gyflwyno i Bennaeth yr Adran/Coleg/Ysgol/Gyfadran neu ei enwebai ar ôl i oruchwyliwr y myfyriwr ystyried y mater. Cyfrifoldeb y goruchwyliwr fydd cyflwyno'r cais cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Rhaid i'r argymhelliad gynnwys datganiad ynghylch y rhesymau dros gyflwyno'r cais. Gwneir y rhan fwyaf o'r ceisiadau hyn ar sail sensitifrwydd masnachol yr ymchwil, a allai fod wedi'i noddi'n rhannol gan gorff masnachol neu ddiwydiannol.

6.19 Pan ganiateir atal mynediad dylid rhoi gwybod i Oruchwyliwr y myfyriwr. Yn achos gwaith y tybir ei fod yn berthnasol i Gymru, bydd yr Adran/Coleg/Ysgol/Gyfadran yn rhoi gwybod i lyfrgellydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru am y ffaith y dylid atal mynediad at y gwaith am gyfnod penodedig.

6.20 Tybir y bydd y penderfyniad i atal mynediad yn dod i rym cyn gynted ag y bydd y gwaith wedi'i gyflwyno, ond caiff y cyfnod a gymeradwywyd ei gyfrifo o'r dyddiad y bydd y Sefydliad sy'n Cyfranogi yn rhoi gwybod i'r myfyriwr yn ffurfiol am y ffaith ei fod yn gymwys i ennill gradd.

6.21 Pan gaiff gwaith ei gyflwyno, bydd yn ofynnol i fyfyriwr gynnwys datganiad wedi'i lofnodi ynddo a fydd yn dangos naill ai:

- Fod y gwaith, os yw'n llwyddiannus, yn gallu bod ar gael ar gyfer benthyciad rhwng llyfrgelloedd neu i'w lungopïo (yn unol â'r ddeddf hawlfraint), ac y gellir darparu'r teitl a'r crynodeb ar gyfer sefydliadau allanol; neu
- Y bydd y gwaith, os yw'n llwyddiannus, ar gael felly ar ddiwedd cyfnod yr ataliad

**7. Byrddau Arholi**

7.1 Y Byrddau Arholi a fydd yn cwrdd er mwyn asesu cynnydd myfyrwyr ar y Rhaglen Genedlaethol fydd Bwrdd Arholi perthnasol pob un o'r Prifysgolion sy'n Cyfranogi (gweler 9.2).

**RHEOLIADAU ASESU**

**8. EGWYDDORION CYFFREDINOL**

Caiff materion nad yw'r Rheoliadau Asesu a ddisgrifiwyd yn eu cynnwys, eu cwmpasu gan reoliadau asesu a darpariaethau perthynol y Brifysgol briodol sy'n Cyfranogi, lle bydd y rhain yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â materion o'r fath.

Os bydd materion sydd wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau Asesu a ddisgrifiwyd a rheoliadau asesu a darpariaethau perthynol y Brifysgol briodol sy'n Cyfranogi, caiff gwahaniaethau o ran dehongli ystyr eu cytuno o blaid y Brifysgol sy'n Cyfranogi.

Lle defnyddir y term Bwrdd/Byrddau Arholi yn y Rheoliadau Asesu a ddisgrifiwyd, ystyr y term hwn fydd Bwrdd Arholi pob un o'r Prifysgolion sy'n Cyfranogi wedi'i iawn gyfansoddi, sy'n gweithredu yn unol â'r awdurdod a'r cylch gorchwyl a ddirprwywyd iddynt gan Fyrddau/Bwyllgorau Academaidd priodol y Prifysgolion sy'n Cyfranogi.

Ystyr myfyrwyr perthnasol fydd y myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar y Rhaglen Genedlaethol ym mhob un o'r Prifysgolion sy'n Cyfranogi.

O fewn rhwystrau nodau, deiliannau dysgu a rheoliadau asesu'r rhaglen, mae disgresiwn gan y Byrddau Arholi wrth ddod i benderfyniadau ar y dyfarniadau i'w hargymell ar gyfer myfyrwyr unigol. Maent yn gyfrifol am ddehongli'r rheoliadau asesu ar gyfer y rhaglen yng ngoleuni gofynion y Brifysgol sy'n cyfranogi ac arferion da ym maes addysg uwch, yn enwedig mewn perthynas â chynnal safonau academaidd.

Gellir asesu perfformiad myfyrwyr drwy unrhyw gyfuniad o ddulliau asesu sy'n briodol i lefel a deilliant dysgu'r ymarfer asesu.

Rhoir dulliau asesu penodol, pwysiadau a allai fod yn berthnasol a nifer yr asesiadau, ym manyleb y rhaglen a disgrifyddion y modiwlau. Ni fydd modd newid y rhain dim ond gyda chytundeb y Prifysgolion sy'n Cyfranogi gan ddefnyddio eu mecanweithiau a gymeradwywyd.

**8.1 Cyflwyno Marciau**

Cyflwynir gerbron y Byrddau Arholi holl farciau'r asesiadau a gymerwyd. Rheolir RPcL/Trosglwyddo Credyd drwy brosesau diffiniedig pob Sefydliad sy'n Cyfranogi, yn unol â'r Polisi RPL Cenedlaethol ar gyfer y rhaglen hon.

**8.2 Byrddau Dilyniant a Dyfarniadau**

Fel arfer, bydd Byrddau Arholi yn cwrdd ar ôl pob cyfnod asesu yn ystod y rhaglen er mwyn sicrhau y caiff cynnydd myfyrwyr ei fonitro.

Pennir cynnydd yn ôl adolygiad y Bwrdd Arholi o safle 'presennol' y myfyriwr ar ôl pob cyfnod asesu.

Bwrdd Arholi fydd yn penderfynu a yw myfyriwr wedi bodloni'r gofynion i symud ymlaen ar y Rhaglen.

Fel arfer, caniateir i fyfyrwyr sy'n methu cymhwyso i symud ymlaen ar yr ymgais gyntaf, wneud yn iawn am eu methiannau drwy gyflwyno asesiadau atodol neu ailgyflwyno gwaith asesu wedi'i ddiwygio, fel y diffiniwyd gan y rhaglen.

Y Bwrdd Arholi yn unig fydd yn gallu rhoi cyfleoedd am asesiadau atodol.

| Bwrdd | Mis | Penderfyniadau/Canlyniadau |
|---|---|---|
| 1 | Ionawr/Chwefror | Cynnydd/Asesiad Atodol |
| 2 | Mai/Mehefin | Cynnydd/Asesiad Atodol |
| 3 | Medi | Cynnydd/Asesiad Atodol |
| 4 | Hydref | Cynnydd/Asesiad Atodol/Dyfarniad |

Caiff y set gyfan o ganlyniadau ar gyfer pob ymgeisydd a ystyriwyd yn y Bwrdd Dyfarniadau Arholi perthnasol ei chyflwyno i'r arholwyr.

Bydd proffil canlyniadau'r myfyrwyr perthnasol yn cynnwys:

- Canlyniadau'r modiwlau a addysgir.
- Canlyniadau'r Traethawd Hir

**8.3 Marcio Dienw**

Pan fydd ar gael, gweler polisi perthnasol y Sefydliad sy'n Cyfranogi ar Farcio Dienw, neu wybodaeth berthynol.

**8.4 Datgelu Hunaniaeth**

Pan fydd ar gael, gweler polisi perthnasol y Sefydliad sy'n Cyfranogi ar Farcio Dienw, neu ddarpariaeth berthynol.

**8.5 Datgelu Canlyniadau**

Pan fydd ar gael, gweler polisi perthnasol y Sefydliad sy'n Cyfranogi ar Gyhoeddi Marciau, neu ddarpariaeth berthynol.

## 8.6 Camymddygiad Academaidd

Gweler polisi perthnasol y Sefydliad sy'n Cyfranogi ar Gamymddygiad Academaidd, neu ddarpariaeth berthynol.

## 8.7 Addasrwydd i Ymarfer

Gweler polisi perthnasol y Sefydliad sy'n Cyfranogi ar Addasrwydd i Ymarfer, neu ddarpariaeth berthynol.

## 8.8 Apelio yn erbyn penderfyniadau

Gweler gweithdrefn berthnasol y Sefydliad sy'n Cyfranogi ar Apeliadau a/neu Gywirdeb Marciau a Gyhoeddwyd, neu ddarpariaeth berthynol.

Mae gan bob myfyriwr y mae gofyn iddo dynnu'n ôl o'r Brifysgol sy'n Cyfranogi, yr hawl i apelio yn unol â rheoliadau'r Brifysgol sy'n Cyfranogi, er enghraifft y Weithdrefn Cywirdeb Marciau a Gyhoeddwyd a/neu'r Weithdrefn Apelio.

## 9 RHEOLAU ASESU CYFFREDINOL AR GYFER Y CWRS MA CENEDLAETHOL MEWN ADDYSG (CYMRU)

9.1 Y marc llwyddo ar gyfer modiwlau fydd 50%. Ni roddir credyd ond i myfyrwyr sy'n pasio modiwl.

9.2 Dyfernir y cymhwyster MA 'Cenedlaethol' mewn Addysg (Cymru) i fyfyrwyr sydd wedi cwblhau cyfanswm o 180 o gredydau ar Lefel 7 FHEQ yn llwyddiannus. Cyfrifir dosbarthiad cyffredinol y radd ar sail cyfartaledd y marciau ar gyfer yr holl fodiwlau wedi'u pwysoli yn ôl gwerthoedd credyd y modiwlau hynny.

9.3 Caiff cynnydd myfyrwyr ei fonitro drwy gydol y rhaglen. Gwneir penderfyniadau ynghylch dyfarniadau ar ddiwedd y rhaglen, a chânt eu cadarnhau gan Fwrdd Arholi perthnasol y Sefydliad sy'n Cyfranogi.

9.4 Ystyrir bod pob modiwl a ddewisir (modiwlau gorfodol a dewisol) yn fodiwlau craidd, a rhaid llwyddo ynddynt gyda marc gwerth o leiaf 50% er mwyn cwblhau'r rhaglen, ac ni chaniateir goddefiant.

9.5 Mae'n bosibl y caniateir i fyfyrwyr nad ydynt wedi pasio modiwl a *addysgir* ddwy ymgais bellach yn y rhaglen i wneud yn iawn am fethu (h.y. cyfanswm o dair ymgais ym mhob modiwl a *addysgir*), ar yr amod bod modd cyflawni hyn ymhen terfyn amser y Rhaglen. Ni chaniateir ymgeisiadau eraill i fyfyrwyr oni bai fod amgylchiadau esgusodol y cytunwyd arnynt.

9.6 Os yw ymgeiswyr yn bodloni'r arholwyr mewn ymgais i wneud iawn am fethiant, ni fyddant yn gymwys am farc uwch na'r trothwy wedi'i gapio o 50% ym mhob modiwl,

waeth beth yw lefel eu perfformiad. Bydd y Bwrdd Arholi yn cyfeirio at y marc wedi'i gapio wrth bennu'r cyfartaledd ar gyfer y dyfarniad.

9.7 Ystyrir bod myfyrwyr sy'n methu pasio modiwl ar y drydedd ymgais 'allan o gyfleoedd', ni fyddant yn gymwys am ddyfarniad Meistr a bydd gofyn iddynt dynnu'n ôl o'r Sefydliad sy'n Cyfranogi. Ni fydd y fath myfyrwyr yn cael cyfle arall i gwblhau eu rhaglen astudio ac ni chânt eu hystyried am unrhyw ddyfarniad ond cymhwyster ymadael. Ni fydd myfyrwyr y mae angen iddynt dynnu'n ôl o'r Sefydliad sy'n Cyfranogi yn derbyn ymgeisiadau pellach i basio eu modiwlau ac ni fyddant yn gymwys i drosglwyddo credydau i raglen astudio arall yn y Brifysgol honno, neu i'r cwrs MA Cenedlaethol mewn Addysg (Cymru) mewn Sefydliad sy'n Cyfranogi, a bydd eu hastudiaethau'n dod i ben. Gellir cyfeirio achosion eithriadol at y Bwrdd Rheoli Cenedlaethol i benderfynu arnynt. Gellir ystyried myfyrwyr ar gyfer dyfarniad ymadael gweler rheoliad 5: Cymwysterau Ymadael, uchod).

9.8 Mewn amgylchiadau eithriadol ac yn unol â Pholisi'r Sefydliad perthnasol sy'n Cyfranogi ar Amgylchiadau Esgusodol (neu ddarpariaeth berthynol), caiff myfyrwyr sy'n methu pasio eu modiwl(au) gyflwyno tystiolaeth o amgylchiadau esgusodol yn unol â Pholisi Amgylchiadau Esgusodol y Sefydliad sy'n cyfranogi. Fel arfer, cynhelir yr ailasesu y cytunwyd arno yn ystod y cyfnod(au) asesu priodol nesaf.

9.9 Fel arfer, caniateir i fyfyriwr sy'n methu ac y mae angen ei ailasesu, ail-gyflwyno fersiwn ddiwygiedig o'i waith gwreiddiol, ac eithrio myfyrwyr y canfuwyd eu bod wedi cyflawni Camymddygiad Academaidd yn yr asesiad penodol.

9.10 Ni roddir caniatâd i fyfyrwyr ail-wneud modiwl sydd eisoes wedi'i basio er mwyn gwella eu perfformiad.

9.11 Ystyrir bod myfyriwr sy'n methu cyflwyno prosiectau sefydlog neu waith cwrs mewn modiwl a addysgir erbyn y dyddiad(au) gofynnol, wedi methu'r asesiad(au) dan sylw a bydd

ganddo ddau gyfle arall i'w ailgyflwyno (wedi'i gapio). Os oes amgylchiadau esgusodol yn nhyb y myfyriwr, dylai ddilyn proses Amgylchiadau Esgusodol cyhoeddedig y Sefydliad sy'n Cyfranogi.

9.12 Bydd myfyrwyr sy'n cyflawni marc cyfartalog cyffredinol gwerth o leiaf 60% a llai na 69.99% ar gyfer y rhaglen gyfan, yn gymwys i ennill dyfarniad gradd Meistr â Theilyngdod.

9.13 Bydd myfyrwyr sy'n ennill marc cyfartalog cyffredinol o 70% ar gyfer y rhaglen gyfan yn gymwys i ennill dyfarniad gradd Meistr â Rhagoriaeth.

9.14 Os yw myfyrwyr yn methu cwblhau'r rhaglen a/neu'n tynnu'n ôl o'r Sefydliad perthnasol sy'n Cyfranogi, gan ddibynnu ar nifer y credydau a gronnwyd ganddynt, efallai y bydd ganddynt hawl i gymhwyster ymadael.

9.15 Bydd myfyrwyr sy'n methu cyflwyno eu Traethawd Hir erbyn dyddiad cau cyntaf yr asesiad yn cael un cyfle arall i'w gyflwyno (wedi'i gapio) fel y diffinnir yn 10.17. Bydd myfyrwyr sy'n methu cyflwyno eu Traethawd Hir erbyn y dyddiad cau ar yr ail ymgais yn methu'r radd Meistr, a chânt eu hystyried am gymhwyster ymadael. Ni fydd yn derbyn cyfle arall i ailgyflwyno.

9.16 Fel arfer, bydd myfyrwyr sy'n cyflwyno eu Traethawd Hir erbyn y dyddiad cau ac yn methu ennill marc llwyddo, yn cael caniatâd i'w ail-gyflwyno yn unol â'r terfyn amser priodol. Caiff marciau am ailgyflwyno eu capio ar 50%.

| **Dull Astudio** | |
| --- | --- |
| RHAN-AMSER | 6 mis (ar ôl i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi'n swyddogol) |

9.17 Caiff myfyrwyr nad oes modd iddynt fodloni'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno, gyflwyno cais i ystyried Amgylchiadau Esgusodol, yn unol â rheoliadau'r Sefydliad perthnasol sy'n Cyfranogi.

9.18 Caiff myfyrwyr gyflwyno gwaith asesu neu gael eu harholi yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unol â Safonau'r Gymraeg ac yn unol â rheoliadau'r Sefydliad perthnasol sy'n Cyfranogi.

**Medi 2021**